ATODLEN 3

Holiaduron: disgrifiad

RHAN 3

Holiadur (ar-lein) i Sefydliadau Cymunedol

(1) Cwestiwn	*(2) Opsiynau Ymateb*
Pa fath o sefydliad yw hwn?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Meddygol neu ofal —Addysg —Lluoedd arfog —Sefydliad cadw —Llety dros dro neu wrth deithio —Sefydliad crefyddol —Llety i staff neu weithwyr yn unig —Sefydliad arall
Os mai "Meddygol neu ofal" yw'r ymateb yna: Pa fath o sefydliad meddygol neu ofal yw *(cyfeiriad y cyfrifiad)*?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Cartref gofal heb nyrsio —Cartref gofal â nyrsio —Cartref plant (gan gynnwys unedau diogel) —Ysbyty cyffredinol —Ysbyty neu uned iechyd meddwl (gan gynnwys unedau diogel) —Ysbyty arall —Math arall o sefydliad meddygol neu ofal
Os mai "Addysg" yw'r ymateb yna: Pa fath o sefydliad addysg yw *(cyfeiriad y cyfrifiad)*?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Ysgol —Prifysgol (er enghraifft, neuadd breswyl) —Math arall o sefydliad addysg

(1) Cwestiwn	*(2) Opsiynau Ymateb*
Os mai "Sefydliad cadw" yw'r ymateb yna: Pa fath o sefydliad cadw yw *(cyfeiriad y cyfrifiad)*?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Sefydliad gwasanaeth carchardai (gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc) —Safle a gymeradwywyd (hostel prawf neu fechnïaeth) —Canolfan gadw —Math arall o sefydliad cadw
Os mai "Llety dros dro neu wrth deithio" yw'r ymateb yna: Pa fath o sefydliad llety dros dro neu wrth deithio yw *(cyfeiriad y cyfrifiad)*?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Gwesty, tŷ llety, gwely a brecwast, hostel ieuenctid (gan gynnwys tafarndai) —Llety gwyliau (er enghraifft, parc gwyliau) —Hostel neu loches dros dro i bobl ddigartref —Math arall o lety dros dro neu wrth deithio
Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad hwn?	*Dewisir un o'r canlynol:* —Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol —Awdurdod lleol —Un o adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth —Landlord cymdeithasol cofrestredig neu gymdeithas dai —Elusen neu gorff gwirfoddol —Cwmni neu berchennog preifat —Sefydliad addysg uwch neu addysg bellach —Arall
Oes unrhyw un o'r canlynol yn byw yn y sefydliad hwn ar hyn o bryd?	*Dewisir pob un sy'n berthnasol:* —Unrhyw un sydd eisoes wedi treulio, neu sy'n disgwyl treulio, 6 mis neu fwy yn y sefydliad hwn, hyd yn oed os bydd i ffwrdd ar 21 Mawrth 2021 —Preswylwyr y Deyrnas Unedig sy'n aros yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021 ac sydd heb gyfeiriad arferol arall yn y Deyrnas Unedig

(1) Cwestiwn	*(2) Opsiynau Ymateb*
	—Pobl sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer, sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, yn y Deyrnas Unedig am 3 mis neu fwy ac sydd heb gyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig —Myfyrwyr neu blant ysgol sy'n aros yn y sefydliad hwn yn ystod y tymor —Chi'ch hun, eich teulu, staff ac unrhyw un arall sy'n byw yn y sefydliad hwn Neu —Dim un o'r rhain
Faint o bobl sy'n byw yn y sefydliad hwn ar hyn o bryd?	*Dewisir un o'r canlynol:* *—Nodir nifer y preswylwyr* —Nid oes neb yn byw yn y sefydliad hwn *(Bydd yr opsiwn ymateb ychwanegol hwn ond yn ymddangos os mai'r opsiwn ymateb a ddewiswyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol yng ngholofn (1) oedd "Dim un o'r rhain".)*
Oes unrhyw un o'r ymwelwyr canlynol yn aros dros nos yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021?	*Dewisir pob un sy'n berthnasol:* —Unrhyw un â chyfeiriad arferol arall yn y Deyrnas Unedig sydd wedi treulio, neu sy'n disgwyl treulio, llai na 6 mis yn y sefydliad hwn —Unrhyw un o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am lai na 3 mis Neu —Dim un o'r rhain
Faint o ymwelwyr sy'n aros dros nos yn y sefydliad hwn ar 21 Mawrth 2021?	*Dewisir un o'r canlynol:* *—Nodir nifer yr ymwelwyr* —Nid oes unrhyw ymwelwyr yn aros dros nos *(Bydd yr opsiwn ymateb ychwanegol hwn ond yn ymddangos os mai'r opsiwn ymateb a ddewiswyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol yng ngholofn (1) oedd "Dim un o'r rhain".)*